

Cyfarfod Fforwm Hil Cymru ar Covid-19, â'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn cadeirio

22 Ebrill 2020

11:30-1:00pm

Cyfarfod Skype

Nodiadau'r cyfarfod:

Jane Hutt AC (Cadeirydd)

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Aelodau'r Fforwm Hil

Rocio Cifuentes

Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig

Yr Athro Emmanuel Ogbonna

Kay Denyer

Race Council Cymru

Patience Bentu

Race Council Cymru

Iolanda Viegas

Mis Hanes Croenddu

Riaz Hassan

Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol

Holly Taylor

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Shahien Taj

Sefydliad Henna

Sunil Patel

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Aled Edwards

Cytun

Laura O'Keefe

Race Equality First

Maria Mesa

Women Connect First

Isaac Blake

Romani Cultural and Arts Company

Yr Athro Robert Moore

Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru

Shavanah Taj

TUC Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru:

Alyson Francis

Yr Is-adran Gymunedau

Emma Bennett

Y Gangen Gydraddoldebau

Hannah Fisher

Y Gangen Gydraddoldebau

Heather Payne

Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Andrew Holmes

Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Uzo Iwobi

Cynghorydd Polisi Arbenigol, Cydraddoldebau

Steven Macey

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Sue Leake

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Kevin Francis

Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Usha Ladwa Thomas

Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Croeso gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

1. Diolchodd y Dirprwy Weinidog i bawb am ymuno â'r cyfarfod ar fyr rybudd. Dywedodd y byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio'n benodol ar effaith Covid 19 ar gymunedau BAME. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog mai Diwrnod Stephen Lawrence oedd 22 Ebrill, sef dathliad o fywyd a gwaddol Stephen Lawrence a laddwyd mewn ymosodiad hiliol yn 18 oed.
2. Roedd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol bod cymunedau BAME yn wynebu heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen a bod y cyfarfod heddiw yn bwysig o ran gwyntyllu pryderon mewn perthynas â materion cyfredol o safbwynt Cymru. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 21 Ebrill gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-covid-19-chymunedau-pobl-dduon-ac-asiiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-bame#content>

Effaith Covid-19 ar gymunedau BAME

3. Soniodd y Dirprwy Weinidog am yr adroddiadau bod y feirws yn effeithio ar niferoedd anghymesur o unigolion BAME. Nododd y Dirprwy Weinidog y gwaith sylweddol sy'n mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, a rhoddodd sicrwydd i'r cyfarfod fod y data'n cael eu cymryd o ddifrif. Nododd fod y mater hefyd wedi'i drafod yn ei chyfarfod â TUC Cymru ac arweinwyr Cydraddoldebau y diwrnod cynt.
4. Rhannodd Rocio fod y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau i asesu'r effaith ar gymunedau BAME drwy gyfarfodydd fforwm thematig wythnosol. Cyfeiriodd at adroddiad yr oedd y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig wedi'i ddsbarthu i'r aelodau a oedd yn ymdrin â phob agwedd ar fywyd, gan nodi nad y feirws yn unig sy'n cael effaith anghymesur ar bobl BAME, ond hefyd mesurau'r cyfnod clo eu hunain. Nododd fod yr anghydraddoldebau presennol wedi cael eu dwysáu a'i bod yn rheidrwydd ar bob un ohonom i wneud popeth a allwn i liniaru'r effeithiau hyn.
5. Diolchodd y Dirprwy Weinidog i Rocio am rannu ei hadroddiad.
6. Roedd yr Athro Ogbonna o'r farn bod canolbwyntio ar yr effaith ar iechyd yn allweddol. Holodd a allai Cymru arwain o ran gweithredu tra bod rhagor o dystiolaeth yn dod i'r fei. Awgrymodd y dylid cynghori gweithwyr proffesiynol BAME sydd wedi ymddeol, i beidio â dychwelyd i'r gwaith os oes ganddynt gyflyrau iechyd isorweddol, neu y dylid lleoli staff mewn mannau lle'r oeddent yn llai tebygol o gael eu heintio.
7. Trafodwyd pwysigrwydd data, a nododd swyddogion lechyd bod cynifer o ffynonellau data â phosibl yn cael eu dwyn ynghyd. Er enghraifft, roedd cydweithwyr ym maes y Gweithlu yn edrych ar ddata o ran diogelu cyflogaeth ac roeddent yn ystyried a ddylid cyflwyno ymyriadau fel darparu fitamin D.
8. Nododd Shavanah fod dyletswyddau statudol yn cael eu gosod ar gyflogwyr o dan ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch mewn perthynas â diogelwch gweithwyr yn y

gweithle. Nododd fod cyfran uchel o fenywod BAME yn cael eu heffeithio gan eu bod yn weithwyr rheng flaen. Dywedodd fod tystiolaeth na ddylai unigolion sydd â chyflyrau iechyd isorweddol fod yn y rheng flaen. Dywedodd fod y Coleg Nyrsio Brenhinol yn ystyried cymryd camau cyfreithiol gan eu bod yn teimlo bod cyfran uwch o staff BAME yn cael eu gwthio i weithio yn y rheng flaen er ei bod yn hysbys bod ganddynt broblemau iechyd.

9. Dywedodd yr Athro Moore fod nifer o faterion cymhleth i'w hystyried wrth edrych ar y niferoedd ac ychwanegodd ei bod hefyd yn bwysig edrych ar yr hyn sydd angen ei wneud o ran gwaith ymchwil a pholisïau unwaith y bydd y pandemig wedi cilio. Teimlai ei bod yn amlwg bod y feirws yn effeithio ar niferoedd uwch o bobl BAME, o bosibl oherwydd eu bod yn fwy agored iddo am eu bod yn y rheng flaen. Teimlai fod angen symud o rifau i gyfrannau ac y gallai dod i gysylltiad â'r feirws ar y rheng flaen fod yn ffactor yn hytrach na statws BAME ynddo'i hun. Teimlai hefyd nad oedd straen a phryder wedi cael eu hystyried fel ffactor a oedd yn peri bod pobl yn agored i gael eu heintio. Ychwanegodd ei fod o'r farn fod y boblogaeth BAME yn wynebu amgylchedd gelyniaethus yn barod.
10. Mewn perthynas â sylw yn y cyfleuster sgwrsio yn mynegi pryderon am y ffaith bod GIG Digidol, Lloegr yn rhannu data a ddefnyddid wedyn i gadw unigolion yn gaeth a'u hallgludo, holodd Shavanah a oedd Byrddau Iechyd yng Nghymru yn rhannu data cleifion gyda Gwasanaeth Mewnfudo Swyddfa Gartref y DU. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn deall nad oedd y data hyn yn cael eu rhannu ac y byddai'n cadarnhau hynny'n ysgrifenedig.
11. Nododd Holly fod angen edrych y tu hwnt i deuluoedd amlgenhedlaeth ac edrych hefyd ar deuluoedd nad ydynt yn perthyn i'w gilydd sy'n byw gyda'i gilydd. Eglurodd fod llawer o bobl yn byw mewn eiddo heb fynediad addas at yr awyr iach ac oherwydd hynny roeddent yn dibynnu ar gael mynd i barciau, a'u bod yn ei chael yn anodd dygymod hebddynt. Yn ogystal, nododd nad oeddent yn gallu fforddio TG na chael mynediad at WiFi gan eu bod yn byw ar £37 yr wythnos. Roedd yn teimlo bod y sefyllfa'n cael effaith ar eu gallu i fodloni eu hanghenion eraill ac y byddai'n eu gwneud yn fwy agored i'r feirws oherwydd eu hiechyd bregus.
12. Rhannodd Isaac ei bryder a'i ddieter mewn perthynas ag effaith y rhaglen Dispatches ddiweddar a ddarlledwyd ar Channel 4. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad mewn perthynas â hyn, os yw'n bosibl, gan fod ffocws y rhaglen yn cysylltu troseddu ag ethnigrwydd.

Roedd yn teimlo bod y gymuned Teithwyr Sipsiwn Roma unwaith eto'n cael ei thargedu ac, o ganlyniad, eu bod nhw'n ofni mynegi pryderon yn gyhoeddus. Mae sefydliad Isaac yn gofyn i aelodau'r gymuned anfon datganiadau at Romani Cultural and Arts Company mewn ymateb i'r rhaglen Dispatches.
13. Atebodd y Dirprwy Weinidog bod hyn wedi rhoi braw iddi, ac y bydd yn mynd yn ôl at gydweithwyr ym maes Cyfathrebu i edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru godi pryderon am hyn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru neges drydar ddoe - @ @LIC_Cymunedau

14. Ychwanegodd Aled fod Fforwm Heddlu Gwent wedi dweud ddoe eu bod yn dod ar draws enghreifftiau erchyll o droseddau casineb yn erbyn y gymuned Teithwyr Sipsiwn Roma. Mae angen cofnodi hyn gyda negeseuon eglur a chamau gweithredu clir.

Cam gweithredu:

Y Dirprwy Weinidog i gadarnhau, yn ysgrifenedig, nad yw Byrddau Iechyd yng Nghymru yn rhannu data cleifion gyda Gwasanaeth Mewnffudo Swyddfa Gartref y DU.

Rhoi'r Grŵp Cyngori ar Faterion Moesol a Moesegol Covid-19 ar waith

15. Nododd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cyngori ar Faterion Moesol a Moesegol Covid-19 yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn darparu arbenigedd, profiad a chynghor mewn perthynas â fframwaith ymarfer moesegol. Diben y Grŵp a'i is-grwpiau yw llunio canllawiau i helpu i sicrhau y byddai'r risg o wahaniaethu annheg yn erbyn unrhyw ran o'r gymuned yn cael ei lleihau neu ei dileu.
16. Mae is-grŵp yn Llywodraeth Cymru o'r Grŵp Cyngori ar Faterion Moesol a Moesegol Covid-19 yng Nghymru (y grŵp Angladd a Chladdedigathau) wedi ymgynnull i ystyried agweddau ffydd a diwylliannol posibl ar angladdau a chladdedigathau.
17. Holodd y Dirprwy Weinidog a fyddai'n ddefnyddiol cael gwybod a fyddai aelodau'r fforwm yn dymuno cyfrannu at yr is-grŵp hwn a'r materion a drafodir.
18. Dywedodd Aled fod y ddau grŵp wedi bod yn ddefnyddiol o safbwynt y gymuned Gristnogol. Ychwanegodd fod sgysiau yn digwydd bob dydd gydag arweinwyr ffydd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o grwpiau anodd eu cyrraedd ee ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Y diweddaraf ynghylch gwaith i gefnogi cymunedau ffydd BAME

19. Nododd y Dirprwy Weinidog y byddai cyfarfod o'r fforwm cymunedau ffydd yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol. Nododd hefyd y byddai Ramadan yn dechrau ar 23 Ebrill ac eleni y byddai'r ŵyl cael ei chadw mewn ffordd wahanol.
20. Amlinellodd Riaz bryderon ynghylch dathlu Ramadan, yn enwedig o ran bwyd a digwyddiadau cymdeithasol. Nododd fod gan foscgiau lawer o sianeli cyfathrebu y gellid eu defnyddio i rannu negeseuon.
21. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y Prif Weinidog wedi recordio neges ar gyfer Ramadan. Cytunodd hefyd i ysgrifennu llythyr at Imams yn ymdrin â'r pwyntiau yr oedd Riaz wedi'u crybwyll.

22. Dywedodd Shahien ei bod wedi cael cais i ymuno â gweithgor Cyfathrebu ynghylch Ramadan, gyda Swyddfa'r Cabinet. Roedd hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth o amrywiaeth o fewn cymunedau Mwslimaidd ac roedd yn dawelach ei meddwl o wybod y byddai'r Dirprwy Weinidog yn ysgrifennu at Imams.
23. Nododd y Dirprwy Weinidog nad oedd hi'n ymwybodol o'r gweithgor Cyfathrebu a gofynnodd i'r swyddogion ganfod rhagor o wybodaeth.
24. Ychwanegodd yr Athro Moore fod Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru wedi cysylltu â holl foscgiau Gogledd Cymru ac wedi cynnig unrhyw gymorth y gallai ei roi o fewn y cyfyngiadau presennol.
25. Cododd Kay bryderon ynglŷn â'r rhestr cleifion sy'n gwarchod eu hunain. Er eu bod yn gallu cofrestru ar gyfer parseli cymorth bwyd y Llywodraeth, ychydig iawn o unigolion BAME oedd wedi ymateb nac yn cael parseli.
26. Nododd y Dirprwy Weinidog fod llythyr wedi'i anfon at 88,000 o bobl yng Nghymru a bod awdurdodau lleol yn cysylltu â'r unigolion hyn. Gofynnodd a fyddai modd iddynt roi gwybod i swyddogion am unrhyw enghreifftiau o bobl na chysylltwyd â nhw. Ychwanegodd Sue fod y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddadansoddi ystadegau fesul grŵp BAME.

Camau Gweithredu:

- Swyddogion i gydgyssylltu ynghylch llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog i Imams yng Nghymru
- Swyddogion i ddarganfod rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r gweithgor cyfathrebu ynghylch Ramadan
- Swyddogion i olrhain y gwaith dadansoddi manylion data mewn perthynas ag ethnigrwydd gyda chydweithwyr o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.

Gwaith parhaus ar ran sefydliadau a ariennir gan y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, mewn ymateb i Covid 19

27. Eglurodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn ymwybodol bod yr holl bartneriaid wedi diwygio eu cynlluniau cyflawni oherwydd y sefyllfa bresennol ynghylch Covid-19 er mwyn mynd i'r afael â materion brys.
28. Dywedodd Shahien ei bod yn gweithio'n rhan amser ar hyn o bryd gyda Women Connect First yn ogystal â Sefydliad Henna. Tynnodd sylw at y ffaith ei bod yn ystyried pam yr effeithiwyd ar niferoedd uchel o gymunedau BAME gan Covid-19, drwy eu rhwydweithiau cymunedol. Cynigiodd y syniad o sefydlu llinell gymorth Covid a allai frysbennu galwadau a chyfeirio pobl at yr asiantaethau perthnasol.
29. Nododd Heather fod cydweithwyr wrthi'n gweithio ar y posibilrwydd o gyhoeddi canllawiau i bawb ar ychwanegiadau fitamin D yn ystod y cyfnod clo, gan gyfeirio'n

benodol at gymunedau â chroen tywyllach. Gofynnodd am farn ar y cynnig ac awgrymiadau ynghylch y ffordd orau o rannu'r cyngor.

30. Awgrymodd Uzo y dylid anfon gwybodaeth drwy holl aelodau Fforwm Hil Cymru, y Grŵp BAME ar Covid 19, y Fforwm Ffydd, y Fforwm Anabledd a chanolfannau diwylliannol BAME ledled Cymru.
31. Dywedodd Maria fod y rhan fwyaf o wasanaethau ar-lein a rhannodd enghreifftiau o brosiectau a oedd yn cynnwys prosiect troseddau casineb i ddeall problemau ac ofnau. Nododd fod 35 o ieithoedd yn cael eu defnyddio, ac mai bwriad y prosiect oedd nodi problemau ynghylch troseddau casineb a'r effaith roeddynt yn eu cael ar gleientiaid. Dywedodd nad oedd y capasiti ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo pob cleient ac felly y byddai Women Connect First yn cefnogi'r llinell gymorth arfaethedig.
32. Teimlai Riaz ei bod yn amlwg bod troseddau casineb ar gynnydd a nododd fod tyndra cymdeithasol newydd - plismona cymunedol ar y mesurau cloi. Er enghraifft, yn ardal Bae'r Gorllewin, rhwng 1 a 15 Ebrill, cofnodwyd 60 achos o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – 44 ohonynt yn ymwneud â Covid 19. Roedd hyn yn dangos newid. Holodd beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd ynghylch y prosiect Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb mewn ysgolion.
33. Esboniodd Sunil fod CLILC wedi ymestyn y gwaith hyd nes fis Mawrth 2021. Dywedodd ei bod yn hanfodol fod elusennau'n parhau i weithio gydag ysgolion ar ôl y cyfnod clo. Nododd fod llawer o'r gwaith yn waith na ellir ei wneud ar-lein, er enghraifft, amlinellodd adroddiad y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig y cynnydd mewn straen mewn perthynas â mynediad at TG yn ogystal â ffactorau fel trais domestig. Nododd Sunil fod rhaglen hyfforddi ar-lein newydd wedi cael ei datblygu ar gyfer athrawon a'i bod yn cael ei chyflwyno o dipyn i beth.
34. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog am y dolenni at yr hyfforddiant ar-lein fel y gallai eu rhannu â'r Gweinidog Addysg.
35. Nododd yr Athro Moore fod Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru wedi symud ei waith CLILC ar-lein.
36. Cododd Patience fater troseddau casineb tuag at y gymuned Tsieineaidd mewn perthynas â Covid 19. Er bod gostyngiad yn nifer y troseddau casineb, roedd y gymuned Tsieineaidd wedi dweud bod hyn yn parhau i beri llawer o bryder a phoen meddwl iddynt.

Camau gweithredu:

- **CLILC i ddarparu amserlenni newydd ar gyfer gwaith Troseddau Casineb mewn Ysgolion**
- **Sunil i rannu'r ddolen i'r rhaglenni newydd ar-lein ar gyfer athrawon er mwyn i'r Dirprwy Weinidog gael ei rhannu gyda'r Gweinidog Addysg**

37. Dywedodd yr Athro Ogbonna y bydd taer angen ailedrych ar y Ddeddf Cydraddoldeb pan fydd y pandemig ar ben.
38. Nododd y Dirprwy Weinidog fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â chryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.
39. Holodd Shavanah ynghylch cymorth i bobl hunan-gyflogedig gan rannu sefyllfa gyrwyr tacsï fel enghraifft. Dywedodd fod canran fawr ohonynt yng Nghaerdydd ac roedd yr NCP wedi mynnu eu bod yn talu £547 i ddiweddarau trwyddedau er nad oeddent yn gweithio ac nad oedd Credyd Cynhwysol ar gael ar unwaith. Roedd hi o'r farn y byddai llinell gymorth yn mynd i'r afael â llawer o'r problemau roedd pobl yn eu hwynebu a'i fod yn ffordd o ddarparu cymorth.
40. Nododd Shahien fod adroddiad y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn tynnu sylw at broblem pobl ifanc a chyffuriau, gan ddweud ei bod yn anodd i rieni gadw plant yn eu harddegau gartref yn unol â'r mesurau cyfyngu.
41. Daeth y Dirprwy Weinidog â'r cyfarfod i ben a dywedodd y byddai'n rhannu'r cofnodion gyda'i chyd-Weinidogion. Diolchodd i'r aelodau am ymuno â'r cyfarfod ac awgrymodd eu bod yn cyfarfod eto ymhen ychydig wythnosau. Yn y cyfamser, gofynnodd i'r aelodau ddal ati i godi materion pwysig a oedd yn dod i'r fei.

Camau gweithredu:

- Y Dirprwy Weinidog i rannu'r materion a godwyd gyda'i chydweinidogion
- Swyddogion i drefnu'r cyfarfod nesaf.